
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Bae Trecco i Farina Porthcawl, Penybont

## Taith gerdded hwyl i'r teulu sy'n llawn sbri glan môr.

*"Dyma daith gerdded sy'n boblogaidd ymysg teuluoedd a phobl sydd ar eu gwyliau. Mae modd mynd i Fae Trecco a Thraeth Coney yn hawdd ac mae'n brofiad sydd oddi ar y llwybr i bobl sydd eisiau cael profiad glan môr go iawn."*

**TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Parc Gwyliau Bae Trecco / Marina Porthawl

### Pellter:

2 milltir/3km (dychwelyd).

### Ar hyd y ffordd...

Gyda thraethau euraidd, ffeiriau a pheiriannau traddodiadol glan y môr, mae'r tro bach hamddenol hwn yn berffaith i ymwelwyr ifanc.

Gan gychwyn ym Mharc Gwyliau Bae Trecco, dilynwch Lwybr Arfordir Cymru i'r gorllewin heibio Bae Trecco a Sandy Bay. Wedi ei wahanu gan bentir bychan, creigiog a thraethau euraidd mae man gorffwys delfrydol i chi gael ymdrochi neu adeiladu cestyll tywod cyn parhau â'ch taith.

Nesaf, ymlaen â chi i Draeth Coney, parc pleser glan y môr sy'n llawn reids, ffigar-êt, stondinau, gemau ac arcêds. Unwaith i'r plant wario eu harian poced, ewch ymlaen ar hyd y Promenâd Dwyreiniol at Farina Porthcawl sydd newydd gael ei adnewyddu. Bu'r harbwr unwaith yn borthladd glo prysur, ond mae bellach yn fan hyfryd i stopio am hufen iâ wrth wylio'r cychod pleser a'r cychod pysgota'n siglo i fyny ac i lawr yn y dŵr.

Efallai bod gorffennol diwydiannol y marina wedi hen ddiflannu, ond mae'n parhau i fod yn gartref i ddarnau diddorol o hanes morol. Cafodd yr adeilad rhestredig Gradd II Jennings ei adeiladu yn 1832, a dyma warws forol hynaf y DU sydd bellach yn gartref i fwytai a chaffis, a'r goleudy sydd yma, sydd bellach yn cael ei bweru gan fatri, oedd y goleudy olaf yn y wlad i gael ei bweru gan lo a nwy.

Unwaith i chi weld y cyfan, ewch yn ôl yr un ffordd ar hyd Llwybr Arfordir Cymru at eich man cychwyn.

### Angen gwybod:

Mae caffis a thoiledau cyhoeddus yn ogystal â lleoedd parcio ym Mae Trecco a Thraeth Coney.